



Polisi Addysg Cydbberthynas a Rhywioldeb (ACR_h)

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*

Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) Ysgol Dyffryn Conwy

Enw'r aelod o staff sy'n gyfrifol am y polisi hwn:	Jason Turner
Enw'r aelod o staff sy'n arwain y maes hwn:	Jason Turner
Enw'r llywodraethwr â chyfrifoldeb am y maes hwn:	Ffuo Williams
Dyddiad mabwysiadu'r polisi hwn gan y corff llywodraethol:	24/06/2022
Dyddiad adolygiad nesaf o'r polisi hwn:	24/06/2024

Datganiad gan y Corff Llywodraethol	2
Cyflwyniad	3
Rhaglen ACRh	3
ACRh Cynllun Gwaith	4
Addysgu ACRh	4
Ateb Cwestiynau Disgyblion	4
Gweithio gyda Sefydliadau Eraill	5
Ymgynghori	6
Disgyblion	6
Rhieni/Gofalwyr	6
Hawl i Dynnu Allan	7
Sicrhau Ansawdd	7
Proses Sicrhau Ansawdd	7
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	7

Datganiad gan y Corff Llywodraethol

Mabwysiadwyd yn polisi hwn gan gorff llywodraethol Ysgol Dyffryn Conwy ar 24/6/2022. Bydd y corff llywodraethol yn adolygu'r polisi hwn ymhenni dwy flynedd ar y 24/6/2024 i sicrhau bod y polisi'n cyd-ymffurfio ag anghenion ein disgyblion a chanllawiau a rheoliadau statudol diweddaraf Llywodraeth Cymru. Os bydd angen newidiadau, bydd yr ysgol yn ymgynghori ag aelodau o staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion. Bydd unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu cyfleu'n glir drwy wefan yr Ysgol a newyddlen i rieni / gwraichodwyr.

Wrth fabwysiadu'r polisi hwn, mae'r corff llywodraethol yn cydnabod ei gyfrifoldeb am sicrhau fod y polisi hwn yn cael ei weithredu, a bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) wedi'i hariannu'n llawn, wedi'i staffio ac wedi'i hamserlennu i sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei hymrwymiaadau cyfreithiol ac yn diwallu anghenion ein disgyblion.

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn manylu ar ymagwedd ysgol gyfan Ysgol Dyffryn Conwy at Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh). Yn Ysgol Dyffryn Conwy credwn fod ACRh o safon uchel yn hanfodol ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol ein disgyblion.

ACRh yw dysgu am agweddau emosiynol, cymdeithasol a chorfforol o dyfu i fyny, perthnasoedd, rhyw, rhywioldeb dynol ac iechyd rhywiol. Mae dysgu ar gyfer ACRh yn cyfeirio at yr hyn sy'n cael ei addysgu'n benodol a'r hyn sydd wedi'i ymgorffori ar draws y cwricwlwm drwy ein ymagwedd ysgol gyfan.

Mae ein rhaglen ACRh:

- yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd cadarnhaol i'n disgyblion i gael perthnasoedd iach a diogel, i fwynhau eu rhywioldeb ac i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles rhywiol.
- yn briodol o ran datblygiad, yn berthnasol ac yn ymgysylltu yn glir â llwybrau dilyniant ar gyfer dysgu a phrofiad.
- sydd â statws cyfartal â meysydd eraill yn ein cwricwlwm.

Credwn, trwy ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) o ansawdd uchel, ein bod yn cynnal ethos, gwerthoedd, a fframwaith moesol ein hysgol drwy ddangos parch at yr holl ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach, trwy gynnwys amrywiaeth rhywiol a dathlu gwahaniaethau, a thrwy feithrin perthnasoedd iach.

Fe wnaethom ddatblygu'r polisi hwn mewn ymgynghoriad â'n staff, bwrdd llywodraethol, disgyblion a rhieni/gofalwyr, ac yn unol â'r canllawiau diweddaraf gan:

- Llywodraeth Cymru
 - [Canllawiau Cwricwlwm i Gymru, 2020](#)
 - [Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, 2016](#)
 - [Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, 2022](#)
- Llywodraeth y DU
 - [Deddf Cydraddoldeb, 2010](#)

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'n polisiâu eraill, gan gynnwys polisiâu'r ysgol ar gyfrinachedd, diogelu, amddiffyn plant a [Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#) yn ymwneud ag ACRh.

Rhaglen ACRh

Ein nod yw cefnogi hawliau ein disgyblion i fwynhau perthnasoedd iach, diogel, a boddhaus ar hyd eu hoes. Mae hyn yn cynnwys y gallu i adnabod, deall a siarad am wahaniaethu a thrais a gwybod sut a ble i droi i chwilio am gymorth, a chyngor a gwybodaeth ffeithiol ar ystod o faterion ACRh.

Mae ein rhaglen ACRh yn:

- gynhwysol ac wedi'i theilwra i weddu i anghenion unigol ein disgyblion.

- briodol yn ddatblygiadol ar gyfer pob dysgwr, sy'n golygu y gall anghenion dysgwyr o oedrannau tebyg amrywio (manylir ar hyn ymhellach yn ein Cynllun Gwaith ACRh).
- canolbwytio ar gydberthnasau a hunaniaeth, iechyd rhywiol a lles, a grymuso, diogelwch a pharch (fel y manylir yn “Y Cwricwlwm i Gymru - Cod ACRh, 2022”).
- yn seiliedig ar y meysydd thematig canlynol: hawliau a thegwch; rhyw, rhywedd a rhywioldeb; cyrff a delwedd gorfforol; iechyd rhywiol a lles; a thrais, diogelwch a chymorth.

ACRr Cynllun Gwaith

Mae ein cynllun gwaith ACRr yn greiddiol i'n darpariaeth ACRr yn Ysgol Dyffryn Conwy. Mae'r cynllun gwaith ar gael drwy wefannau pwrpasol sydd wedi eu llunio gan yr ysgol. Mae ein cynllun gwaith Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn manylu ar sut yr ydym yn rheoli, trefnu ac ymgorffori ACRr ar draws ein cwricwlwm ysgol gyfan. Mae'r ddogfen yn nodi'n glir sut yr ydym yn sicrhau bod ein rhaglen yn ddatblygiadol briodol yn unol â “Canllawiau Cwricwlwm i Gymru, 2020”, a “Y Cwricwlwm i Gymru – Cod ACRr, 2022”.

Mae ein cynllun gwaith ACRr yn amlygu'r holl adnoddau a ddefnyddiwn i gyflwyno'r rhaglen hon i'n disgyblion. Dewisir yr holl adnoddau'n ofalus am eu haddasrwydd ac fe'u hadolygir am eu heffeithiolrwydd yn dilyn eu defnydd gan athrawon a'r aelod arweiniol o staff ar ACRr.

Addysgu ACRr

Bydd athrawon a'r aelod arweiniol o staff ar ACRr yn ymgymryd â chynllunio, addysgu, gwerthuso a monitro rhaglen ACRr yr ysgol.

Bydd Ysgol Dyffryn Conwy yn sicrhau amgylchedd dysgu diogel i athrawon, staff a disgyblion drwy sefydlu a chytuno rheolau a threfniadau dosbarth yr ysgol.

Ni ddylai ein staff ateb cwestiynau personol amdanynt eu hunain na gofyn cwestiynau personol uniongyrchol i'w disgyblion a allai wneud y naill neu'r llall yn agored i niwed.

Ateb Cwestiynau Disgyblion

Mae ACRr yn archwilio ystod o faterion ac mi all arwain i ddisgyblion ofyn ystod o gwestiynau. Rydym yn gweld cwestiynau fel arwydd cadarnhaol bod disgyblion yn ymgysylltu â'r hyn sy'n cael ei addysgu ac yn teimlo y gallant fynegi chwilfrydedd naturiol amdanynt eu hunain, eu cyrff a'u perthnasoedd ag eraill.

Cyn belled ag y bo modd, lle mae cwestiwn yn berthnasol i'r dosbarth cyfan, byddwn yn ei ateb i'r grŵp cyfan. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen delio â chwestiwn y tu allan i'r ystafell ddosbarth os nad yw'n addas ar gyfer y dosbarth cyfan. Pan bydd sefyllfaoedd fel hyn yn codi byddwn yn sicrhau bod dau aelod o staff yn bresennol wrth i'r athrawes/athro fynd i'r afael â'r cwestiwn a godir gan y disgybl.

Credwn fod ymagwedd agored at ateb cwestiynau yn atal disgyblion rhag dysgu gwybodaeth anghywir neu niweidiol ar-lein, neu gan gyfoedion a disgyblion hŷn. Credwn fod archwilio materion gyda'r dosbarth cyfan yn hanfodol i leihau'r stigma a'r cywilydd a all amgylchynu rhai o'r materion a archwiliwyd mewn ACRr. Credwn fod plant yn cael eu hamddiffyn yn well rhag niwed a chamdriniaeth pan fyddant yn gallu trafod materion yn agored mewn amgylchedd diogel gyda gweithwyr proffesiynol sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y maes.

Gweithio gyda Sefydliadau Eraill

Er mwyn cyfoethogi ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn Ysgol Dyffryn Conwy rydym yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o gydweithwyr ieuchyd, addysg a gwasanaeth ieuenctid a sefydliadau allanol eraill i sicrhau'r profiad addysgol ACRh gorau posibl i'n disgyblion.

Mae'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw yn Ysgol Dyffryn Conwy yn cynnwys:

Gwasanaethau Ieuenctid, Nyrsys Ysgol, Bydwagedd, Hafan Cymru, NSPCC, Viva, Stonewall, Cyswllt Heddlu yr Ysgol

Rydym wedi dewis y sefydliadau hyn yn ofalus er mwyn ategu ein rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb trwy ddod â sgiliau a dulliau arbenigol, ac arbenigedd i'r ysgol.

Cyn cyflwyno cynnwys ACRh gan unrhyw un o'r sefydliadau uchod, bydd ein haelod arweiniol o staff ACRh yn adolygu'r cynnwys, yr adnoddau a'r dull cyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn briodol i ddatblygiad ein disgyblion. Bydd ein haelod arweiniol o staff ACRh hefyd yn sicrhau bod y cynnwys, yr adnoddau a'r dull cyflwyno arfaethedig yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi hwn, ac yn cyfoethogi ein rhaglen ACRh.

Pan fydd unrhyw sefydliad yn cynnal sesiwn i'r disgyblion ar unrhyw bwnc sy'n cael ei gynnwys yn ein polisi ACRh, rydym yn amodi bod yn rhaid i athro (sy'n gyfarwydd â'r disgyblion) fod yn bresennol. Mae presenoldeb athro yn hanfodol i sicrhau:

- bod y cynnwys yn addas ac yn briodol i ddatblygiad ein disgyblion.
- bod yr athro yn llawn ymwbodol o'r hyn a drafodwyd yn ystod y sesiwn.
- bod yr athro yn gallu ateb cwestiynau gan y disgyblion yn dilyn y sesiwn mewn ffordd effeithiol.
- bod yr athro yn gallu atgyfnerthu ac adeiladu ar y wybodaeth a gyflwynir yn ystod y sesiwn gyda'r disgyblion.

Rhaid i unrhyw bartner allanol gydymffurfio â'r polisi ACRh hwn a'r holl bolisïau cysylltiedig eraill, gan gynnwys polisi cyfrinachedd ac amddiffyn plant yr ysgol.

Ymgynghori

Disgyblion

Yn Ysgol Dyffryn Conwy rydym wedi ymgorffori nifer o ddulliau ymgynghori â disgyblion yn ein harfer i sicrhau bod y cwricwlwm ACRh a ddarparwn yn bodloni anghenion ein disgyblion.

Yn gyntaf, mae disgyblion blwyddyn 7 – 13 yn cael cyfle i wneud sylwadau penodol ar bolisi, gwersi ac ymarfer ACRh yr ysgol trwy weithgareddau ymgynghori (fel yr amlinellir yn ein cynllun gwaith ACRh).

Yn ail, bydd ein disgyblion yn cymryd rhan yn arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN) pob dwy flynedd. Mae'r arolwg hwn yn rhoi cyfle i'n disgyblion ymateb i gwestiynau ar bynciau iechyd emosiynol a chorfforol (gan gynnwys rhyw a pherthnasoedd). Mae'r adroddiad a gawn yn dilyn yr arolwg yn rhoi mewnwelediad allweddol i ni o anghenion ein disgyblion ac rydym yn defnyddio'r wybodaeth i addasu ein cwricwlwm ACRh i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein disgyblion.

Yn drydydd, rydym yn ymgysylltu'n barhaus â'n disgyblion drwy gydol eu gwersi, a thrwy'r Cyngor Ysgol / Fforwm Blwyddyn . Bydd disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau cyfrinachol/dienw drwy ddefnyddio blwch cwestiynau dienw. Bydd pob cwestiwn yn cael ei ateb yn sensitif ac mewn modd sy'n briodol i ddatblygiad y disgyblion.

Yn drydydd, rydym yn ymgysylltu'n barhaus â'n disgyblion trwy gydol eu gwersi, a thrwy'r Cyngor Ysgol / Fforwm Blwyddyn / Holiaduron barn. Bydd disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau cyfrinachol/dienw drwy ddefnyddio blwch cwestiynau dienw. Byddwn yn ateb o bob cwestiwn yn amserol, mewn modd sensitif sy'n briodol i'w ddatblygiad.

Rhieni/Gofalwyr

Yn Ysgol Dyffryn Conwy credwn fod rhieni/gofalwyr yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen ACRh. Rydym yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei addysgu a phryd, drwy'r dulliau canlynol:

- Anwytho i'r ysgol a phecynnau croeso
- Sesiynau galw heibio wedi'u cynllunio
- Nosweithiau Rhieni/Gofalwyr
- Rhannu'r polisi ar wefan yr ysgol
- Llythyrau at rieni/gofalwyr yn rhoi gwybodaeth am ACRh
- Fforwm Rhieni/Gofalwyr

Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth i cefnogi rhieni/gofalwyr i gyflawni eu rôl fel addysgwyr am berthnasoedd, rhyw a rhywioldeb yn y cartref trwy ein cyfryngau cymdeithasol a cylchlythyr

Os oes gan rieni/gofalwyr unrhyw bryderon neu amgylchiadau arbennig y dylai'r ysgol fod yn ymwybodol ohonynt, neu os hoffent unrhyw wybodaeth bellach am y cwricwlwm, bydd gennym amser penodedig iddynt ddod i mewn i'r Ysgol drwy drefnu cyfarfod. Fel rhan o dymagwedd ysgol gyfan yr ysgol o ymdrin ag ACRh, bydd rhieni/gofalwyr yn cael cyfleoedd i weld y deunyddiau a'r adnoddau a ddefnyddiwyd ar gais.

Hawl i Dynnu Allan

Yn hanesyddol, roedd rieni/gofalwyr gyda'r hawl i dynnu eu plentyn/plant allan o ACRh, fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm newydd yn rhoi'r hawl yma i rieni/gofalwyr. Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Cwricwlwm i Gymru newydd byddwn yn dilyn yr amserlen isod i wneud ACRh yn orfodol i'n disgyblion.

- O fis Medi 2023: ACRh yn orfodol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 ac 8.
- O fis Medi 2024: ACRh yn orfodol gyfer disgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9.
- O fis Medi 2025: ACRh yn orfodol i ddisgyblion Blwyddyn 7, 8, 9 a 10.
- O fis Medi 2026: ACRh yn orfodol i pob disgybl.

Gwerthfawrogwn fod hwn yn newid sylweddol, ac yn ystod y cyfnod a noder uchod, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n holl rieni/gofalwyr i sicrhau ymwybyddiaeth lawn o gynnwys a dulliau gweithredu ein rhaglen ACRh.

Wrth i ni gyflwyno'r cwricwlwm newydd, os yw rhiant/gofalwr yn dymuno tynnu eu plentyn allan o ACRh, dylent hysbysu'r pennaeth yn ysgrifenedig a bydd yr ysgol yn cadw cofnod o hyn. Byddwn yn atgoffa rhieni/gofalwyr yn flynyddol bod y cais i dynnu'n ôl yn dal yn ei le ac yn eu gwahodd i gadarnhau a ydynt yn dal eisiau tynnu eu plentyn allan o ACRh.

Sicrhau Ansawdd

Proses Sicrhau Ansawdd

Rydym yn monitro ein cynllunio, addysgu a dysgu ACRh yn rheolaidd er mwyn sicrhau'r ansawdd uchaf, a bod y rhaglen yn diwallu anghenion ein disgyblion, "Canllawiau Cwricwlwm i Gymru, 2020", a "Cwricwlwm i Gymru - Cod ACRh, 2022".

Byddwn yn sicrhau ansawdd ein darpariaeth ACRh drwy: arsylwadau gwersi, craffu cynllunio, edrych ar samplau o waith disgyblion, dadansoddi presenoldeb disgyblion mewn gwersi ayyb

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Fel ysgol, rydym wedi ymrwmo i'r ymagwedd ysgol gyfan at ACRh. Er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth o'r ansawdd uchaf i'n holl ddisgyblion rydym yn ymrwmo i gefnogi ein staff addysgu i ddatblygu eu hyder, eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyflwyno ACRh yn effeithiol. Byddwn yn cefnogi ein staff i sicrhau eu bod yn gallu cyflwyno'r rhaglen yn effeithiol, yn ddatblygiadol briodol ac yn bodloni anghenion ein disgyblion trwy amrywiol lwybrau DPP gan gynnwys hyfforddiant mewnol, sirol, darpariwr allanol a chenedlaethol gan arbeingwyr yn y maes.